## Marchogaeth i Jerwsalem

**Mathew 21: 1-11; Marc 11: 1-11; Luc 19: 28-44; Ioan 12: 12: 17**

Gallwch lawrlwytho’r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae’r Cynllun Stori yma yn dangos be sy’n digwydd ym mhob rhan o’r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno’r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| | Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Mathew 21: 1-11; Marc 11: 1-11; Luc 19: 28-44; Ioan 12: 12: 17 |  | |
| 1 | Roedd Gŵyl y Pasg was agosáu. Roedd Iesu yn arwain ei ddisgyblion i Jerwsalem. |  | |
| 2 | Dyma nhw'n cyrraedd Bethffage a Bethania wrth Fynydd yr Olewydd, a dyma Iesu'n dweud wrth ddau ddisgybl, “Ewch i'r pentref acw sydd o'ch blaen chi, ac wrth fynd i mewn iddo dewch o hyd i asen wedi ei rhwymo a'i hebol gyda hi. |  | |
| 3 | Dewch â nhw yma i mi, ac os bydd rhywun yn ceisio'ch rhwystro, dwedwch, ‘Mae'r meistr eu hangen nhw; bydd yn eu hanfon yn ôl wedyn.’” |  | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | I ffwrdd â'r disgyblion ar unwaith. |  |
| 5 | A dyna lle roedd yr ebol, allan yn y stryd wedi ei rwymo wrth ddrws. |  |
| 6 | Wrth iddyn nhw ei ollwng yn rhydd dyma rhyw bobl oedd yn sefyll yno yn dweud, “Hei! Beth dych chi'n ei wneud?” Dyma nhw'n dweud yn union beth ddwedodd Iesu wrthyn nhw, a dyma'r bobl yn gadael iddyn nhw fynd. |  |
| 7 | Aethon nhw â'r asen a'i hebol at Iesu. |  |
| 8 | Dyma nhw'n taflu eu cotiau arnyn nhw, a dyma Iesu'n eistedd ar gefn yr ebol. |  |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Dechreuodd y dyrfa daflu eu cotiau fel carped ar y ffordd o'i flaen, neu dorri dail o'r coed a'u lledu ar y ffordd. |  |
| 10 | Eisteddodd Iesu ar gefn asyn, fel mae'n dweud yn yr ysgrifau sanctaidd, “Paid ag ofni, ddinas Jerwsalem. Edrych! dy frenin sy'n dod, ar gefn ebol asen.” (Sechareia 9:9) Felly roedd Iesu'n cyflawni proffwydoliaeth o'r Hen Destament. |  |
| 11 | Roedd y dyrfa y tu blaen a'r tu ôl iddo yn gweiddi, “Clod i Fab Dafydd!” (Hosanna) |  |
| 12 | “Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi ei fendithio'n fawr!”Croes<br>Roedd eraill yn gweiddi, “Clod i Dduw yn y nefoedd uchaf!” |  |
| 13 | Roedd eraill yn gweiddio, "Mae'r un sy'n dod i gynrychioli'r Arglwydd wedi ei fendithio'n fawr!” |  |

14 Ond dyma ryw Phariseaid oedd yn y dyrfa yn troi at Iesu a dweud, “Athro, cerydda dy ddisgyblion am ddweud y fath bethau!”



15 Atebodd Iesu, “Petaen nhw'n tewi, byddai'r cerrig ar ochr y ffordd yn dechrau gweiddi.”




16 Wrth iddyn nhw ddod yn agos at Jerwsalem dyma Iesu yn dechrau crïo wrth weld y ddinas o'i flaen.



17 “Petaet ti hyd yn oed heddiw ond wedi deall beth fyddai'n dod â heddwch parhaol i ti! Ond mae'n rhy hwyr, a dydy heddwch ddim o fewn dy gyrraedd o gwbl. Mae dydd yn dod pan fydd dy elynion yn codi gwrthglawdd yn dy erbyn ac yn dy gau i mewn ac ymosod arnat o bob cyfeiriad. Cei di dy sathru dan draed, ti a'r bobl sy'n byw ynot. Bydd waliau'r ddinas yn cael eu chwalu'n llwyr, am dy fod wedi gwrthod dy Dduw ar y foment honno pan ddaeth i dy helpu di.”



| | | |
|---|---|---|
| 18 | Roedd llawer o bobl wedi mynd allan i gyfarfod Iesu wrth iddo farchogaeth i mewn i Jerwsalem. Roedden nhw wedi clywed am yr arwydd gwyrthiol roedd wedi ei wneud. |  |
| 19 | Roedd rhai o'r bobl yn gofyn, "Pwy yw'r dyn yma?" ac roedd eraill yn ateb, "Iesu, y proffwyd o Nasareth sydd yma." |  |
| 20 | Cyfieithwyd gan www.beib.net | Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org |
| 21 | |   |